Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## EM Aesthetics RK Lasers, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 08 Gorffennaf 2024
Dyddiad cyhoeddi: 08 Hydref 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn:0300 062 8163
E-bost:agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83625-609-0
© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14

4. Y camau nesaf ........ 15

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 16

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 17

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 18

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o EM Aesthetics RK Lasers ar 08 Gorffennaf 2024.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o ddeg holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael gwasanaeth 'da iawn' a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd cleifion EM Aesthetics RK Lasers wrthym eu bod yn cymryd cymaint o ran ag y dymunant mewn penderfyniadau am eu triniaeth a bod y staff yn gwrando arnynt. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i roi gwybodaeth glir i'r cleifion, a bod yr holl gleifion yn cytuno eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau triniaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rheoli cofnodion cleifion.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC bod ei system rheoli cofnodion newydd yn parhau i nodi holl wybodaeth y cleifion mewn modd cywir a darllenadwy.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel, bod y staff yn gwrando arnynt ac yn gofalu'n dda amdanynt.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd EM Aesthetics RK Lasers yn darparu gofal diogel o ansawdd uchel i'w cleifion. Roedd y mesurau atal a rheoli heintiau i gyd yn briodol, a dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y lleoliad yn 'lân iawn' a bod y mesurau'n cael eu dilyn bob amser. Roedd y protocolau triniaeth a'r asesiadau risg i gyd yn addas ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Roedd y gweithdrefnau brys a'r gweithdrefnau cymorth cyntaf i gyd yn foddhaol. Dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'r hyn y dylid ei wneud mewn digwyddiad lle ceir pryder ynghylch diogelwch.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar laser
- Roedd hyfforddiant y ddau weithredwr laser yn gyfredol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd llinellau rheolaeth a chyfrifoldebau clir yn amlwg ac roedd y rhain yn helpu'r staff i ddeall eu rolau unigol er mwyn darparu'r gofal gorau i'w cleifion. Roedd gweithdrefnau clir yn rhoi arweiniad ystyrlon i'r staff, gan gynnwys ar gyfer rheoli cwynion. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, cadw a hyfforddi staff i gyd yn addas.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli adborth a chwynion yn briodol
- Roedd arferion rheoli'r gweithlu yn addas.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

**Adborth gan gleifion**
Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn am y gofal a'r triniaethau a ddarperir. Cawsom gyfanswm o 10 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dywedodd pob ymatebydd ond dau eu bod wedi ymweld â'r gwasanaeth yn ystod y ddeufis diwethaf. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth a gawsant yn 'dda iawn'. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*"Clinig gwych. Proffesiynol a gofalgar iawn."*

*"Gwasanaeth cwsmeriaid da iawn. Trylwyr iawn. Byddwn wir yn ei argymell."*

*"Gwasanaeth gwych, rwy'n hapus iawn."*

*"Gwnaeth y clinig hwn i mi deimlo'n gyfforddus ac yn bwysig."*

**Diogelu a gwella iechyd**
O fewn y pum cofnod a adolygwyd gennym, gwelsom dystiolaeth bod profion croen yn cael eu cynnal ar gyfer pob claf. Cadarnhaodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC hefyd eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth a bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn unrhyw driniaeth.

**Urddas a pharch**
Roedd y lleoliad i gyd wedi'i gynnwys o fewn un gofod a dim ond un claf ar y tro y gellir rhoi triniaeth iddo. Roedd y bleindiau ffenestri wedi'u cau yn ystod pob ymgynghoriad a thriniaeth er mwyn atal pobl o'r tu allan rhag gweld y cleifion. Roedd arwydd y tu allan i ddrws y lleoliad yn nodi y dylai ymwelwyr guro ar y drws ac aros. Gadawyd i gleifion newid y tu ôl i sgrin ac roedd tywel urddas yn cael ei ddefnyddio yn ystod triniaethau. Roedd hebryngwyr yn cael eu caniatáu mewn ystafelloedd trin yn ôl y gofyn.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod mesurau ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrando arnynt/ateb eu cwestiynau.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o bump claf yn ystod ein harolygiad. Roedd yr holl gofnodion yn cynnwys ffurflenni ymgynghori a oedd yn nodi'r ymgynghoriadau wyneb yn wyneb a gynhaliwyd, yn ogystal â'r broses prawf croen cyn triniaeth.

Gwelsom ffurflenni cydsynio wedi'u llofnodi ar gyfer pob triniaeth yn y mwyafrif o'r cofnodion a welsom, a oedd yn cynnwys trefniadau addas i gadarnhau bod y cleifion yn rhoi cydsyniad llawn ar sail gwybodaeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y wybodaeth wedi'i chofnodi'n addas yng nghofnodion dau glaf. Dim ond un cofnod oedd yn cynnwys cydsyniad wedi'i lofnodi ar gyfer prawf croen ac nid oedd cydsyniad wedi'i lofnodi ar gyfer yr wyth triniaeth arall. Roedd 12 cwrs o driniaeth wedi'u cofnodi ar gyfer y cofnod arall ond dim ond 2 oedd wedi cael eu llofnodi. Roedd y ddau gofnod hyn fwy na blwyddyn yn ôl. Ers yr adeg hon roedd system newydd wedi'i chyflwyno lle'r oedd cydsyniad llawn ar sail gwybodaeth yn cael ei gofnodi'n glir ar bob cam o'r broses. O'r cofnodion diweddar a welsom, roedd y broses hon yn briodol.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i'r holiadur wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt, gan gynnwys y gost, y risgiau a'r manteision. Dywedodd un claf:

> *"Gwasanaeth gwych... Maent yn gwneud i chi deimlo'n gwbl gyfforddus, yn esbonio popeth yn fanwl ac yn mynd gam ymhellach i wneud i chi deimlo'n hardd a hyderus."*

Dywedodd pob un o'r cleifion hefyd eu bod wedi cael cyngor ar ôl-ofal a chanllawiau clir ar beth i'w wneud mewn argyfwng neu pe baent yn datblygu haint.

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Gwelsom fod gwybodaeth briodol yn cael ei rhoi i gleifion ar bob cam o'u triniaeth. Gallai cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, ar-lein neu wyneb yn wyneb. Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth am driniaethau ar gael i gleifion drwy'r wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Roedd y canllaw i gleifion yn nodi'r holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â chostau, opsiynau triniaeth, dull o fynegi pryder a beth i'w wneud mewn argyfwng. Roedd y datganiad o ddiben ar gyfer y lleoliad yn gyfredol ac yn gynhwysfawr.

Nododd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn ymwybodol o unrhyw siaradwyr Cymraeg yn eu carfan o gleifion ond gwnaethant gadarnhau y

byddai dogfennau yr oedd eu hangen yn Gymraeg yn cael eu darparu ar gais. Dywedodd y staff wrthym fod adnoddau cyfieithu ar-lein ar gael iddynt os byddai unrhyw riant am gyfathrebu â'r staff mewn unrhyw iaith heblaw Saesneg.

**Cynllunio a darparu gofal**
Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn ystod yr arolygiad yn anodd eu dilyn ar adegau. Gwelsom hefyd fod rhai adrannau yn anghyflawn, fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn. Hefyd, gwnaethom nodi'r meysydd canlynol yr oedd angen eu gwella yn y pum cofnod a welsom:

- Ni ellid dod o hyd i'r ffurflenni asesiad meddygol cychwynnol ar gyfer dau glaf a chawsant eu cyflwyno i'r arolygwyr gan y staff yn ystod yr arolygiad.
- Ni chafodd cyfrif dosau'r driniaeth laser nac unrhyw effeithiau andwyol eu nodi ar gofnod un claf.

Ar adeg ein harolygiad, gwelsom fod y lleoliad yn symud o system rheoli cofnodion bapur yn unig i un a oedd wedi'i digideiddio'n fwy. Gwelsom fod y ffurflenni digidol newydd a ddefnyddir gan y lleoliad yn cael eu diweddaru i roi darlun llawnach o'r gofal a ddarperir i'r cleifion drwy gydol eu taith. Yn ystod ein trafodaethau â staff, gwnaethant ddangos ymwybyddiaeth o'r gwelliannau sydd eu hangen i sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau'n llawn yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Roedd yn amlwg bod newidiadau cadarnhaol yn cael eu gwneud gan y gwasanaeth mewn perthynas â'r mater hwn. Fodd bynnag, o ystyried y materion a welsom yn ystod yr arolygiad, mae angen i'r lleoliad ddiweddaru AGIC o ran y cynnydd a wneir ynghylch cofnodion y cleifion o fewn tri mis.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC bod ei system rheoli cofnodion newydd yn hawdd i'w dilyn ac yn parhau i nodi holl wybodaeth y cleifion mewn modd cywir a darllenadwy.**

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**
Cawsom enghreifftiau addas o'r modd yr oedd y staff yn trin cleifion yn gyfartal ac mewn modd sy'n cynnal eu hawliau unigol. Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth boddhaol ar waith i ategu'r enghreifftiau hyn. Roedd y cleifion yn cael rhagor o gefnogaeth bellach drwy allu dewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhyweddau a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

Roedd y lleoliad ar dir gwastad, heblaw am fynedfa ag ymyl fach. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn helpu'r cleifion sydd â chyfyngiadau symudedd i gael mynediad i'r lleoliad.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion nad oeddent wedi wynebu

unrhyw wahaniaethu wrth gael mynediad i'r gwasanaeth hwn na'i ddefnyddio. Dywedodd y cleifion wrthym y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, gyda pharch dyledus at eu nodweddion gwarchodedig. Dywedodd y cleifion wrthym:

> *"Mae'r [staff] bob amser yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn wrth-wahaniaethol wrth hyrwyddo harddwch / gwahaniaethau unigol pawb sy'n ymweld"*

> *"Fel dyn, rwyf wedi gweld eu bod yn gynhwysfawr iawn ac yn gwneud i mi deimlo'n hyderus fel dyn yn cael triniaethau iechyd"*

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Roedd systemau cadarn ar waith i ofyn am adborth, ei gofnodi ac ymateb iddo. Roedd ffurflenni cais am adborth yn cael eu hanfon yn awtomatig i gleifion ar ôl iddynt gael apwyntiadau. Roedd unrhyw adborth geiriol yn cael ei gofnodi'n addas, ac roedd y staff yn annog y cleifion i gwblhau ffurflenni adborth ar-lein pan fo'n bosibl. Roedd adborth gan gleifion yn cael ei bostio ar-lein er mwyn codi ymwybyddiaeth gyffredinol. Cadarnhaodd y staff y gallai cleifion ddewis rhoi adborth yn ddienw.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i reoli a lleihau'r risgiau i'r cleifion a sicrhau eu bod yn ddiogel. Roedd tystysgrifau diogelwch ar gyfer gwifrau trydanol a phrofion offer cludadwy ar waith. Gwelsom fod yr asesiad risg Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ar waith, a oedd yn cynnwys newidiadau diweddar a wnaed gan y lleoliad. Gwelsom fod asesiad risg y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn gynhwysfawr. Roedd yr holl ragofalon diogelwch tân yn foddhaol a dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng.

Roedd y pecyn cymorth cyntaf yn gyflawn ac yn cynnwys y cyfarpar priodol, ac roedd y ddau aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf i'r lefel gywir.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Gwelsom fod y lleoliad yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Roedd y cyfarpar a'r amgylchedd mewn cyflwr da er mwyn sicrhau prosesau dihalogi effeithiol. Roedd prosesau addas ar waith i lanhau a dihalogi'r ardaloedd trin a'r holl gyfarpar clinigol yn effeithiol. Roedd y prosesau hyn wedi'u nodi ym mholisïau'r lleoliad. Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei drin yn gywir a'i waredu drwy gontract trin gwastraff.

Dywedodd pob un o'r cleifion fod y lleoliad yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Roedd gan y lleoliad weithdrefnau diogelu cynhwysfawr ar waith, a oedd yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol. Roedd y polisi yn nodi'n glir y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder am ddiogelu. Er nad oedd unrhyw driniaethau'n cael eu rhoi i unrhyw un dan 18 oed, roedd trefniadau addas ar waith i ddiogelu plant. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant addas.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Roedd EM Aesthetics RK Lasers yn gweithredu dau beiriant laser, sy'n cyd-fynd â'u cofrestriad ag AGIC. Roedd y rheolau lleol yn y lleoliad wedi'u llunio a'u diweddaru yn ddiweddar gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau cymeradwy. Roedd y ddau weithredwr awdurdodedig wedi llofnodi a dyddio'r rheolau lleol. Ni allai'r staff ddod o hyd i gopi o'u contract blynyddol â'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ar ddyddiad yr arolygiad. Fodd bynnag, rhoddwyd copi o'r contract i AGIC yn syth ar ôl yr arolygiad.

Roedd asesiad risg priodol a oedd wedi'i ddiweddaru'n ddiweddar hefyd wedi'i lunio fel rhan o gontract y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Roedd protocolau triniaeth unigol ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu creu a'u cymeradwyo gan ymarferydd meddygol.

Roedd sbectol amddiffynnol ar gael yn hwylus, ac roedd yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd y ddau beiriant laser wedi cael eu gwasanaeth blynyddol ym mis Ebrill ac ym mis Mehefin, a dywedodd y staff wrthym fod gwiriadau'n cael eu cynnal ar y peiriannau ddwywaith y diwrnod.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd EM Aesthetics RK Lasers yn rhoi triniaethau'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd y ddau weithredwr laser wedi cael hyfforddiant a gymeradwywyd gan y gweithgynhyrchydd ynghyd â hyfforddiant Craidd Gwybodaeth o fewn y tair blynedd diwethaf.

Adeilad un ystafell oedd y lleoliad oedd ag arwydd ar y drws i ddangos bod triniaethau laser yn cael eu cynnal y tu mewn. Roedd yr arwydd ar y drws hefyd yn dweud wrth bobl am guro ac aros cyn mynd i mewn. Pan fyddent yn segur, roedd y ddau beiriant a'u hallweddi'n cael eu storio'n ddiogel ar wahân.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd systemau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Roedd adborth gan gleifion a chofnodion cleifion unigol yn cael eu hadolygu a'u trafod yn rheolaidd gan y ddau weithredwr awdurdodedig yn y lleoliad er mwyn llywio gwelliant parhaus. Roedd archwiliadau hefyd yn cael eu cynnal o'r trefniadau glanhau yn y lleoliad.

**Rheoli cofnodion**

Fel y nodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau o ran lefel y manylion yng nghofnodion y cleifion a welsom a hwyluso'r broses o'u darllen. Roedd y system a oedd newydd gael ei chyflwyno yn briodol gyda'r cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel. Gwelsom hefyd fod y cofnodion papur yn cael eu storio mewn cabinet diogel lle na allai'r cyhoedd gael gafael arnynt. Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am oruchwylio mynediad at y cofnodion. Gwelsom fod cofnodion papur yn cael eu gwaredu'n ddiogel.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Roedd llinellau cyfrifoldeb clir yn amlwg ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau. Roedd cyfarfodydd staff anffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roedd nodiadau'n cael eu cymryd yn ystod cyfarfodydd chwarterol mwy ffurfiol.

Gwelsom fod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn glir ac yn gynhwysfawr, gan gynnwys rheoli fersiynau, dyddiadau adolygu blynyddol a llofnodion staff. Roedd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a thystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn briodol yn ardal y dderbynfa.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd y weithdrefn cwynion a welsom wedi'i diweddaru. Roedd y weithdrefn yn cyfeirio at AGIC fel modd o leisio pryderon ac roedd wedi'i gynnwys yn y canllaw gwybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben. Roedd cwynion yn cael eu goruchwylio gan y rheolwr cofrestru ac roedd y ddau weithredwr awdurdodedig yn rhan o'r broses ymchwilio. Nid oedd unrhyw gwynion i ni eu hadolygu ar adeg ein harolygiad, ond cawsom sicrwydd drwy'r broses a oedd ar waith. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu nodi yn y cofnodlyfr cwynion.

**Arferion recriwtio a chyflogi’r gweithlu**
Gwelsom fod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer y ddau gyflogai, ynghyd â gweithdrefn foddhaol ar gyfer cynnal gwiriadau cyn cyflogi.

**Cynllunio’r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Roedd EM Aesthetics RK Lasers yn fusnes teuluol gyda dau aelod o staff. Gwelsom fod systemau priodol ar waith ar gyfer cynefino staff newydd, goruchwylio'r staff yn barhaus a monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| **Pryderon uniongyrchol a nodwyd** | **Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion** | **Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder** | **Sut cafodd y pryder ei ddatrys** |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: EM Aesthetics RK Lasers

## Dyddiad yr arolygiad: 08 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: EK Aesthetics RK Lasers

## Dyddiad yr arolygiad: 08 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn ystod yr arolygiad yn anodd eu dilyn ar adegau. Gwelsom hefyd fod rhai adrannau yn anghyflawn. Hefyd, gwnaethom nodi'r meysydd canlynol yr oedd angen eu gwella yn y pum cofnod a welsom: | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC bod ei system rheoli cofnodion newydd yn hawdd i'w dilyn ac yn parhau i nodi holl wybodaeth y cleifion mewn modd cywir a darllenadwy. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 23. | Gwnaed y gwelliannau canlynol i'n proses cofnodion cleifion:<br><br>1. Bydd ffurflen feddygol newydd bellach yn cael ei chynnwys ar gyfer pob claf, p'un a yw'n glaf newydd neu'n glaf presennol.<br>2. Caiff nifer y dosau ei gofnodi | Raveena Bhogal | Aed i'r afael â'r mater hwn ers yr arolygiad |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Ni ellid dod o hyd i'r ffurflenni asesiad meddygol cychwynnol ar gyfer dau glaf a chawsant eu cyflwyno i'r arolygwyr gan y staff yn ystod yr arolygiad<br><br>• Ni chafodd cyfrif dosau'r driniaeth laser nac unrhyw effeithiau andwyol eu nodi ar gofnod un claf.<br><br>Ar adeg ein harolygiad, gwelsom fod y lleoliad yn symud o system rheoli cofnodion bapur yn unig i un a oedd wedi'i digideiddio'n fwy. Gwelsom fod y ffurflenni digidol newydd a ddefnyddir gan y lleoliad yn cael eu diweddaru i roi darlun llawnach o'r | | | ar gyfer pob sesiwn laser. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gofal a ddarperir i'r cleifion drwy gydol eu taith. Fodd bynnag, o ystyried y materion a welsom yn ystod yr arolygiad, mae angen i'r lleoliad ddiweddaru AGIC o ran y cynnydd a wneir ynghylch cofnodion y cleifion o fewn tri mis. | | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Raveena Bhogal**

**Teitl swydd: Ymarferydd Laser, Unigolyn Cyfrifol**

**Dyddiad: 05/08/24**